



## Esboniad

Bydd yr adnodd hwn ar y **Gweithdy Cynllunio Gweithredu** yn darparu pob gwybodaeth sydd ei hangen i redeg gweithdy er mwyn cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu manwl. Mae gweithdai'n ffordd dda i alluogi nifer o wahanol randdeiliaid i gyfrannu at lunio cynllun gweithredu eich partneriaeth fwyd. Gallwch eu rhedeg ochr yn ochr â gweithgareddau eraill fel rhannu templedi cynlluniau gweithredu ar-lein er mwyn diffinio camau gweithredu manwl a fydd yn gwireddu'ch gweledigaeth / nodau a chanlyniadau.

Sylwer: dylid darllen yr adnodd hwn ar redeg gweithdai ochr yn ochr â'r canllaw [Cynllunio Gweithredu](#).

## Cyflwyniad

- Cyn mynd ati i drefnu gweithdy cynllunio gweithredu, mae'n werth sicrhau eich bod eisoes wedi pennu gweledigaeth / nodau a chanlyniadau clir ar gyfer eich strategaeth bwyd. Y rhain fydd y fframwaith i'ch cynllun gweithredu.
- Mae hefyd yn werth treulio amser yn sicrhau bod y rhanddeiliaid perthnasol yn debygol o ddod i'r gweithdy. Efallai y byddwch chi eisoes wedi gwneud rhestr o randdeiliaid cysylltiedig neu fod angen rhwydweithio i feithrin rhagor o gysylltiadau â phobl sy'n wybodus am y pwnc dan sylw. Efallai y byddwch am ofyn i unigolion allweddol ddod i'r gweithdy i gynnig mewnbwn penodol.
- Mae'r agenda ar fwyd cynaliadwy yn eang iawn. Rydym yn argymhell cynnal gweithdy cynllunio gweithredu ar gyfer pob un o feysydd allweddol SFP, neu feysydd cyfatebol.
- Mae'r gweithdy isod yn cymryd 2 awr, ond efallai y byddwch am dreulio mwy o amser er mwyn darparu ar gyfer trafodaeth, yn ôl y niferoedd sy'n bresennol.
- Canllaw yn unig yw'r enghraifft isod o strwythur gweithdy. Bydd angen ei addasu yn ôl eich anghenion a diddordebau'ch hunain.

## Beth i'w wneud

- Cyn mynd ati i drefnu gweithdy cynllunio gweithredu, mae'n werth sicrhau eich bod eisoes wedi pennu gweledigaeth / nodau a chanlyniadau clir ar gyfer eich strategaeth bwyd. Y rhain fydd y fframwaith i'ch cynllun gweithredu.
  - Mae hefyd yn werth treulio amser yn sicrhau bod y rhanddeiliaid perthnasol yn debygol o ddod i'r gweithdy. Efallai y byddwch chi eisoes wedi gwneud rhestr o randdeiliaid cysylltiedig neu fod angen rhwydweithio i feithrin rhagor o gysylltiadau â phobl sy'n wybodus am y pwnc dan sylw. Efallai y byddwch am ofyn i unigolion allweddol ddod i'r gweithdy i gynnig mewnbwn penodol.
  - Mae'r agenda ar fwyd cynaliadwy yn eang iawn. Rydym yn argymhell cynnal gweithdy cynllunio gweithredu ar gyfer pob un o feysydd allweddol SFP, neu feysydd cyfatebol.
  - Mae'r gweithdy isod yn cymryd 2 awr, ond efallai y byddwch am dreulio mwy o amser er mwyn darparu ar gyfer trafodaeth, yn ôl y niferoedd sy'n bresennol.
- [www.sustainablefoodplaces.org](http://www.sustainablefoodplaces.org) | *Gweithdy Cynllunio Gweithredu* | Mawrth 2020

- Canllaw yn unig yw'r enghraifft isod o strwythur gweithdy. Bydd angen ei addasu yn ôl eich anghenion a diddordebau'ch hunain.
- Bydd arnoch chi angen:
  - papur siart droi
  - sticeri post-it
  - pennau blaen ffelt lliw tew a thenau
  - smotiau gludiog
  - templed cynllunio gweithredu
  - lle i grwpiau bach weithio o amgylch y byrddau

## Gweithdy cynllunio gweithredu – strwythur enghreifftiol

<b>CROESO</b>	
<p><b>10 munud</b></p> <p>Ysgrifennu'r Weledigaeth a'r Nodau ar siart droi</p>	<p><b>Croeso – Cyflwyniad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Croeso (cyfranogwyr yn eu cyflwyno eu hunain yn eu tro)</li> <li>• Ailddatgan gweledigaeth a nodau / canlyniadau y Bartneriaeth Fwyd</li> <li>• Pwrpas y gweithdy: <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Edrych ar nodau penodol (dweud pa rai)</li> <li>◦ Pennu amcanion a champau gweithredu a fydd yn helpu i gyflawni'r nodau hyn</li> <li>◦ Dechrau rhoi'r camau gweithredu yn nhrefn blaenoriaeth</li> <li>◦ Bydd yr allbynnau'n sail i gynllun gweithredu'r bartneriaeth fwyd</li> </ul> </li> <li>• Tynnu ar brofiad pawb sydd yn yr ystafell.</li> <li>• Trafod, gwranddo, a rhannu.</li> </ul>
<p><b>30 munud</b></p> <p><b>Enghraifft o Nodau ac amcanion</b></p> <p>(papur siart droi, pennau)</p>	<p><b>Gosod amcanion</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno <b>amcanion</b> fel y cam nesaf yn y broses o wireddu'r weledigaeth</li> <li>• Defnyddio enghraifft i ddangos pa fath o bethau yw amcanion ac ateb unrhyw gwestiynau er mwyn eu hegluro.</li> <li>• Rhannu'r cyfranogwyr yn grwpiau gwaith bach. <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Bydd pob grŵp yn canolbwyntio ar <b>un nod/canlyniad</b></li> <li>◦ Beth fydd angen ei weld yn digwydd er mwyn cyflawni'r nod / canlyniad hwn?</li> <li>◦ Beth yw ein hamcanion?</li> <li>◦ Cofnodi'r amcanion drafft ar siart droi</li> <li>◦ (gan gadw at y meysydd gweithgarwch cyffredinol)</li> </ul> </li> </ul>
<p><b>20 munud</b></p> <p><b>Trafodaeth gan y grŵp cyfan</b></p>	<p><b>Myfyrio a thrafod</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y grŵp yn trafod ac yn myfyrio ar yr amcanion drafft <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ A yw'r amcanion drafft yn glir a chryno?</li> <li>◦ A fydd y nod /canlyniad yn cael ei gyflawni drwy gwrdd â'r amcanion hyn?</li> <li>◦ A oes rhai amcanion y mae pawb yn cytuno arnyn nhw?</li> </ul> </li> <li>• Cofnodi unrhyw newidiadau</li> </ul>
<p><b>30 munud</b></p> <p><b>(Gwaith mewn grwpiau bach)</b></p>	<p><b>Cynllunio gweithredu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno'r cam nesaf – <b>y camau gweithredu</b></li> <li>• Cyfeirio at enghraifft</li> <li>• Ateb cwestiynau er mwyn rhoi esboniad</li> <li>• Darparu'r templed cynllunio gweithredu i bob grŵp</li> <li>• Rhannu'r cyfranogwyr yn grwpiau bach eto</li> </ul>

<p><b>Templed Cynllunio Gweithredu</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae pob grŵp: <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ yn cymryd <b>1 neu 2 amcan</b> o'r rhestr a gytunwyd.</li> <li>◦ yn mynd ati i bennu <b>camau gweithredu penodol</b> a fydd yn cyflawni pob un o'u hamcanion.</li> <li>◦ Ar gyfer pob cam gweithredu, gofynnwch: <ul style="list-style-type: none"> <li>– beth yn union fydd yn digwydd?</li> <li>– pwy fydd yn ei gyflawni?</li> <li>– pryd byddan nhw'n gwneud hyn / yn ei gwblhau?</li> <li>– pa adnoddau (arian / staff) sydd eu hangen?</li> <li>– pwy sydd ag angen gwybod am hyn?</li> </ul> </li> </ul> </li> <li>• Cofnodi'r holl gamau gweithredu posibl ar bapur siart droi gan ddefnyddio'r templed sydd wedi'i ddarparu.</li> </ul>
<p><b>20 munud</b></p> <p><b>Trafodaeth gan y grŵp cyfan</b></p> <p><b>(smotiau gludiog)</b></p>	<p><b>Trafod a phennu blaenoriaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r grŵp cyfan yn adolygu'r camau gweithredu ar y siartiau troi</li> <li>• Ar beth maen nhw'n cytuno / anghytuno?</li> <li>• Beth yw'r blaenoriaethau?</li> <li>• Ble mae angen rhagor o ymchwil?</li> <li>• Mae'r cyfranogwyr yn defnyddio smotiau gludiog (coch, melyn, gwyrdd) i ddangos blaenoriaeth uchel, ganolig neu isel.</li> <li>• Gofynnwch i chi'ch hunain: <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Pa gamau gweithredu sy'n debygol o gael cefnogaeth?</li> <li>◦ Pa flaenoriaethau a allai sicrhau camau cyflym ymlaen i'r bartneriaeth?</li> <li>◦ Pa flaenoriaethau sy'n gyson â'r blaenoriaethau strategol presennol?</li> <li>◦ A oes camau gweithredu sy'n creu senarios lle mae pawb ar ei ennill?</li> </ul> </li> </ul>
<p><b>10 munud</b></p>	<p><b>Diwedd glo a'r camau nesaf</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth sydd angen iddo ddigwydd nesaf?</li> <li>• Pwy sydd angen eu cynnwys?</li> <li>• Dyrannu tasgau</li> </ul>